# WILLIAMS, DAVID JAMES (1897-1972), gwleidydd Llafur



**Enw:** David James Williams
**Dyddiad geni:** 1897
**Dyddiad marw:** 1972
**Priod:** Janet Scott Williams (née Alexander)
**Rhiant:** Margaretta Williams (née Jones)
**Rhiant:** Morgan Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwleidydd Llafur
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** John Graham Jones

Ganwyd ef ar Wauncaegurwen ar 3 Chwefror 1897, yn fab i Morgan Williams, glöwr, a Margaretta Jones. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Gwauncaegurwen, dechreuodd weithio mewn pwll glo ym 1911, a bu wedyn yn fyfyriwr yn y Coleg Llafur Canolog yn Llundain, sefydliad Marcsaidd, 1919-21. Bu yn ddi-waith am gyfnod cyn treulio'r flwyddyn 1922-23 yng Ngholeg Ruskin, Rhydychen. Cyhoeddodd y gyfrol bwysig *Capitalist Combination in the Coal Industry* (1924). Bu wedyn yn ddarlithydd yn y Coleg Llafur Albanaidd rhwng 1924 a 1931. Dychwelodd i weithio mewn pwll glo ym 1931 a daeth yn atalbwyswr ac yn ysgrifennydd ei gyfrinfa ar Wauncaegurwen, 1931-45.

Ymunodd D. J. Williams â'r Blaid Lafur ym 1917 a'r Blaid Lafur Annibynnol ym 1922. Gwasanaethodd yn ysgrifennydd propaganda cangen Rhydychen o'r Blaid Lafur Annibynnol. Roedd yn aelod Llafur o Gyngor Gwledig Pontardawe, 1931-45, gan wasanaethu yn gadeirydd ym 1938-39. Williams oedd AS Llafur Castell-nedd o is-etholiad Mai 1945 nes iddo ymddeol o'r senedd adeg etholiad cyffredinol Hydref 1964. Olynwyd ef gan Donald Coleman. Roedd yn aelod o ddirprwyaeth y glowyr i Rwsia. Bu hefyd yn aelod o'r Bwrdd Gwarcheidwaid lleol. Gwasanaethodd yn ysgrifennydd Gr p yr Aelodau Seneddol Llafur Cymreig. Priododd ym 1939 Janet Scott, merch James Alexander. Eu cartref oedd Delfryn, Penscynor, Castell-nedd. Bu farw ar 12 Medi 1972. Mae ei bapurau yng ngofal Archif Glowyr De Cymru, Abertawe.

## Awdur

**Dr John Graham Jones**

## Ffynonellau


*Who was who?*

*Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997* (Talybont 1999)

*Welsh Hustings - 1885-2004* (Rhydaman 2005)

## Darllen Pellach

Archifau LlGC: Parliamentary Division of Neath... 1950. Election Address of David James Williams The Labour Candidate

Archifau LlGC: Parliamentary Division of Neath... 1951. Election Address of David James Williams The Labour Candidate

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5203673

**Dyddiad cyhoeddi:** 2008-07-30

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu